

FFURFLEN ASESU EFFAITH AR Y GYMRAEG

Diben y ffurflen Asesu Effaith ar y Gymraeg yw galluogi Cyngor Rhondda Cynon Taf i ystyried egwyddorion a gofynion [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 1\) 2015](#) er mwyn cydymffurfio â [Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#).

Cam 1 – Casglu Gwybodaeth

NODWCH: Wrth i chi gwblhau'r asesiad yma, bydd gofyn i chi gyflwyno **tystiolaeth i ategu'ch sylwadau**. Gweler [Canllawiau Asesu Effaith ar y Gymraeg](#) i gael rhagor o wybodaeth am ffynonellau data.

Enw'r Cynnig:	Strategaeth Gwasanaeth y Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf 2026-2030
Adran	Gwasanaeth y Llyfrgelloedd
Cyfarwyddwr Gwasanaeth	Louise Davies
Swyddog sy'n llenwi'r Asesiad	Nick Kelland
E-bost	Nick.E.Kelland@rctcbc.gov.uk
Rhif ffôn	01443 778952
Disgrifiad cryno	Mae Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ofalu bod gwasanaeth y llyfrgelloedd 'cynhwysfawr ac effeithlon' yn cael ei gynnig; ond does dim manylion ynddi ynghylch yr hyn mae hynny'n ei olygu. Yng Nghymru mae'r ddyletswydd 'i oruchwylio a hyrwyddo gwelliant yn y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus a ddarperir drwy awdurdodau lleol' wedi'i datganoli i'r Gweinidog Cynulliad perthnasol. Ers 2002 mae'r ddyletswydd yma wedi'i chyflawni drwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Mae'r safonau yma'n cynnwys 13 hawl graidd a 5 Dangosydd Ansawdd. Mae hawl graidd 12, Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynhyrchu strategaeth ar gyfer datblygu ei wasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yn y dyfodol. Wedi iddyn nhw gael eu cymeradwyo, rhaid rhoi'r dogfennau yma ar wefan y Cyngor fel bod modd i'r cyhoedd eu cyrchu'n rhwydd.

	Yn sgil datblygu Strategaeth mae modd gofalu hefyd bod gwasanaeth y llyfrgelloedd yn cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol y Cyngor ac â strategaethau lleol a chenedlaethol eraill, a'i bod felly, yn ei thro, yn fodd o atgyfnerthu agenda ehangach y Cyngor a Llywodraeth Cymru.
Dyddiad:	Ionawr 2026
Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio. (Defnyddwyr Gwasanaethau, Cyflogeion, y Gymuned Ehangach)	Defnyddwyr Gwasanaethau, Cyflogeion, y Gymuned Ehangach)

Beth yw nodau'r polisi, a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r Gymraeg?	Dyma ddiben y strategaeth yma; amlinellu'r modd y bydd gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus y Cyngor yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol a bod yn gynhorthwy i wasanaeth y llyfrgelloedd fodloni ei ofynion statudol a Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (SLCC). Mae'n ymwneud â phob agwedd ar y gwasanaeth gan gynnwys gwasanaethau penodol yn y Gymraeg a gwasanaethau eraill y mae Siaradwyr Cymraeg yn eu defnyddio.
Pwy fydd yn elwa? / Oes modd i'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg? Os felly, rhestrwch nhw yma.	Mae modd i'r strategaeth yma gael effaith ar unrhyw unigolyn sy'n defnyddio'r llyfrgell neu wasanaethau'r llyfrgelloedd, boed wyneb yn wyneb neu ar-lein. Bydd hyn yn cynnwys pobl sy'n darllen ac yn siarad Cymraeg.
Proffil ieithyddol cyfredol yr ardal(oedd) ddaearyddol dan sylw	Mae ffigurau Cyfrifiad 2021 ynghylch y Gymraeg yn dangos bod canran siaradwyr Cymraeg ledled Cymru wedi gostwng i 17.8%. Serch hynny, gwelodd Rhondda Cynon Taf gynnydd bychan gyda chanran poblogaeth y Fwrdeistref Sirol sy'n gallu siarad Cymraeg yn codi o 12.3% i 12.4%. Mae data'n dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf wedi cynyddu o 27,779 i 28,556, sef cynnydd o 2.8%. Yn wir, Rhondda Cynon Taf oedd un o bedwar Awdurdod Lleol yng Nghymru yn unig i weld cynnydd yng nghanran ei siaradwyr Cymraeg. Y lleill oedd Caerdydd, Bro Morgannwg a Merthyr Tudful. Mae pob un o'r awdurdodau lleol yma'n Fwrdeistrefi sirol cyfagos. Efallai bod hynny'n dangos bod ein rhanbarth ni'n gweld rhai tueddiadau cadarnhaol o ran cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, ac y gallai'r cynnydd yma arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth i ddata pellach, manylach, o'r Cyfrifiad ar gyfer Rhondda Cynon Taf ddod i'r fei, (e.e. data Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is), bydd angen i ni ystyried pa effaith y gallai ei chael ar y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.
Data neu ymchwil perthnasol arall	Yn 2019/20, yn ôl adroddiad blaenorol yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (AEG), roedd cyfanswm gwariant gwasanaeth y llyfrgelloedd ar ddeunyddiau Cymraeg yn £13,815, sy'n 5% o gyfanswm y gwariant ar ddeunyddiau (o'i gymharu â tharged yr AEG sef 4%). Yn ystod yr un cyfnod, cafodd 13,265 o eitemau eu cyhoeddi yn y Gymraeg, sy'n 2.6% o'r holl ddeunyddiau a gafodd eu benthg. Ar gyfer 2023/24, roedd gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg yn £11,924, sy'n 4% o gyfanswm y gwariant ar ddeunyddiau ac sy'n cyrraedd targed y Cynllun Datblygu Lleol Cymraeg. Yn ystod y cyfnod yma, cafodd 10,939 o eitemau eu cyhoeddi yn y Gymraeg, sy'n 3.3% o holl gyhoeddiadau'r llyfrgell. Er ein bod ni'n parhau i gyrraedd y targed gwariant o 4%, mae lefel wirioneddol y gwariant wedi gostwng yn unol â gostyngiad cyffredinol yng nghyllideb deunyddiau'r llyfrgell; toriadau i'r gronfa lyfrau sydd wedi cael effaith ar y gyllideb yma. Serch hynny, rydyn ni wedi ymrwymo o hyd i ddyrannu o leiaf 4% o'n cyllideb deunyddiau i adnoddau Cymraeg.

	Mae benthyca deunyddiau Cymraeg yn ddigidol wedi cynyddu, gan godi o 446 o rifynnau yn 2022/23 i 993 yn 2024/25. Mae'r gostyngiad mewn benthyca ffisegol a'r twf o ran defnyddio'r gwasanaethau digidol yn gyson â thueddiadau benthyca ehangach ledled pob fformat.
--	--

Cam 2 – Asesu Effaith

Yma mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau rydych chi'n eu cymryd i wella. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r cyfleoedd i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a manteisio ar wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn israddol i'r hyn sydd ar gael i'r rhai sy'n dewis gwneud hynny yn Saesneg, yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Sylwch fod asesiad effaith ar wahân ar gyfer cydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol y mae'n rhaid ei gwblhau hefyd ar gyfer cynigion polisi.

Cofiwch y gallai effeithiau cadarnhaol i rai grwpiau fod yn niweidiol i eraill – hyd yn oed ymhlith grwpiau Cymraeg. Ystyriwch yr effeithiau ar wahanol grwpiau. Er enghraifft, mae'n bosibl bod cynnig o fudd i ddysgwyr Cymraeg, ond nid i siaradwyr Cymraeg.

Mae modd gweld Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg, blaenorol, ar Inform trwy glicio [yma](#).

A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?

	A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?	Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.	Pa dystiolaeth sydd gennych chi i ategu'r farn yma?	Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?
Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr. Hawliau siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith.	Cadarnhaol	Mae Strategaeth Gwasanaeth y Llyfrgelloedd yn fodd o adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i gyflawni eisoes yn sgil strategaethau blaenorol drwy; gydnabod yr angen i gynyddu cyfran y siaradwyr Cymraeg o fewn y gwasanaeth, annog defnyddio'r Gymraeg bob dydd, sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried	O ran y camau gweithredu sydd yn Strategaeth Gwasanaeth y Llyfrgelloedd, mae cyfeirio at y canlynol: Rydyn ni'n darparu ystod eang o ddeunyddiau Cymraeg, gan gynnwys llyfrau, e-lyfrau, e-lyfrau	Parhau i annog staff i siarad Cymraeg ymhlith ei gilydd (cyfarchiadau ac ati) a chynyddu lefelau'r staff sy'n siarad Cymraeg drwy gefnogi dysgu'r iaith a thrwy recriwtio siaradwyr Cymraeg. Mae ein tair llyfrgell ardal mewn partneriaeth ag Uned

		ym mhopeth a wnawn, a chefnogi gweithgareddau sy'n hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg. Mae hefyd yn adlewyrchu dyletswyddau'r gwasanaethau o ran Safonau'r Gymraeg ac mae pwyslais ynddi hefyd ar gynnig darpariaeth ddwyieithog ac integreiddio'r Gymraeg yng ngweithrediadau craidd llyfrgelloedd er mwyn cefnogi'r targed cenedlaethol o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae llyfrgelloedd yn helpu i greu ymdeimlad o berthyn diwylliannol a balchder yn eu cymuned. Maen nhw'n rhoi cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, boed drwy fynychu achlysuron llyfrgell, benthyca deunyddiau Cymraeg neu gyfleoedd i siarad a defnyddio'r iaith mewn lleoliad cymdeithasol. Rydyn ni'n ymgysylltu â dysgwyr Cymraeg ac yn cynnig lle iddyn nhw ymarfer Cymraeg sgwrsio mewn amgylchedd hamddenol. Rydyn ni hefyd yn cynnig cyfleoedd i oedolion ysgrifennu yn y Gymraeg drwy ein 'Casgliad Blodeugerdd' blynyddol a thrwy hyrwyddo cystadlaethau	sain, e-gylchgronau, adnoddau dysgu a gweithgareddau. Yn 2022 – 2023, cafodd 10,330 o lyfrau Cymraeg eu cyhoeddi, gan godi i 10,939 yn 2023 – 2024. (Dyw'r ffigurau cywir ddim ar gael ar gyfer 2024 – 2025 oherwydd newid yn y System Rheoli Llyfrgelloedd.) O ran benthyca digidol, cafodd 993 o lyfrau digidol Cymraeg eu benthyca yn 2024 – 2025, o'i gymharu â 655 yn 2023 – 2024. Ar hyn o bryd rydyn ni'n cynnal amrywiaeth o weithgareddau Cymraeg rheolaidd ledled ein llyfrgelloedd, gan gynnwys Bore Coffi, Amser Rhigwm Cymraeg, Clwb Carw Canu, Cymraeg y Plant, a Dosbarthiadau Iaith Cymraeg. Cafodd cyfanswm o 243 o weithgareddau Cymraeg eu cynnal yn 2024 – 2025, gyda 126 o weithgareddau wedi'u cynnal rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2025.	Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor wedi'u sefydlu'n hybiau Cymraeg lle mae modd i aelodau'r cyhoedd fynd i gasglu cortyn gwddf (laniard) os ydyn nhw'n ddysgwyr neu'n siaradwyr hyderus a chael gwybod am weithgareddau Cymraeg yn yr ardal. Parhau i ddatblygu a normaleiddio defnyddio'r Gymraeg yn rhan o wasanaethau bob dydd drwy recriwtio a hyfforddi staff, mewn modd cadarnhaol. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda phartneriaid megis Addysg i Oedolion a Menter Iaith i gyflwyno rhaglen o ddosbarthiadau a gweithgareddau Cymraeg sy'n hyrwyddo'r iaith a'i chefnogi. Ochr yn ochr â hyn, byddwn ni'n defnyddio rhagor ar ein hadnoddau Cymraeg ein hunain – gan gynnwys sgiliau ein staff sy'n siarad Cymraeg – i ddatblygu gweithgareddau a digwyddiadau mewnol. Drwy recriwtio cadarnhaol a hyfforddiant parhaus ar gyfer staff, ein nod yw ymgorffori'r
--	--	--	--	--

		ysgrifennu Cymraeg cenedlaethol neu leol. Rydyn ni'n gofyn i bob aelod o staff gael hyfforddiant i lefel 1 yn y Gymraeg ac yn cefnogi unrhyw staff sy'n dymuno gwella eu sgiliau yn y Gymraeg trwy ganiatáu amser o'r gwaith a chymorth ariannol ar gyfer mynychu cyrsiau Cymraeg. Mae ein gwefan newydd: <i>Ein Treftadaeth</i> yn gwbl ddwyieithog. Mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried ar bob cam o ddatblygu'r wefan. Mae'r dull dylunio ar sail dwyieithrwydd yma'n fodd o sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin fel petai'n ychwanegiad neu gyfieithiad syml; mae hi'n hytrach yn rhan graidd o brofiad cyffredinol y defnyddiwr. Ers ei lansio gyntaf, mae ar y wefan gynnwys dwyieithog a deunyddiau Cymraeg sydd wedi'u creu trwy; ddigideiddio dogfennau hanesyddol o'n casgliadau hanes lleol a chymorth at ddibenion recordio a	Yn aml, mae cyflwyno'r gweithgareddau yma'n dibynnu ar gefnogaeth gan sefydliadau trydydd parti, sydd yn hanesyddol wedi arwain at amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y sesiynau sy'n cael eu cynnig. Er mwyn cryfhau cysondeb, rydyn ni wedi cynyddu nifer y gweithgareddau mewnol; mae staff sy'n siarad Cymraeg yng Ngwasanaeth y Llyfrgelloedd i Ysgolion wedi bod yng ngofal y rhain. Mae hyn wedi ein galluogi i sicrhau bod y rhan fwyaf o'n sesiynau stori a chreffft yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog, gyda 65 o sesiynau dwyieithog mewnol wedi'u cynnal yn 2025–2026. Mae'n cydnabod hawl pobl i gael mynediad at wasanaethau yn y Gymraeg. Mae gwasanaeth y llyfrgelloedd wedi bodloni Safonau Llyfrgelloedd	Gymraeg yn rhan naturiol o ddarparu gwasanaethau bob dydd. Rydyn ni'n cydnabod hawl trigolion i gael mynediad at wasanaethau, adnoddau a chyffleoedd diwylliannol yn y Gymraeg. Parhau i gydweithio ledled y sector ar lefel genedlaethol i ehangu'r ystod o adnoddau darllen digidol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael am ddim i ddarlennwyr. Un enghraifft o'r ymrwymiad yma yw'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr, a Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru. Yn sgil y cytundeb yma mae cyllid yn cael ei sicrhau at ddibenion cynhyrchu 24 o lyfrau sain Cymraeg bob blwyddyn (12 ar gyfer oedolion a 12 ar gyfer plant). Yna mae'r teitlau yma ar gael i'r cyhoedd ar ffurf llyfrau sain CD ffisegol neu'n ddigidol trwy BorrowBox. Heb y bartneriaeth yma, fyddai dim llyfrau sain Cymraeg yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru o gwbl.
--	--	--	---	---

		rhannu recordiadau sain Cymraeg. Yn ddiweddar, fe benodon ni Swyddog Digideiddio sy'n siarad Cymraeg; bydd hyn yn fodd o atgyfnerthu ac ehangu ein gallu i greu cynnwys Cymraeg o ansawdd uchel, a'i gynnal, ymhellach. Lle mae gofyn cael tanysgrifiadau i lwyfannau 3^{ydd} parti fel Borrowbox, rydyn ni'n gweithio gyda chyflenwyr i annog datblygu rhyngwynebau Cymraeg a hyrwyddo deunyddiau Cymraeg yn rhan o'r cynnig.	Cyhoeddus Cymru (Dangosydd Ansawdd) o ran Adnoddau yn y Gymraeg am y pedair blynedd diwethaf. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl o fewn y gwasanaeth wedi cynyddu o 7 yn 2022 i 8 yn 2025. Er mai cynnydd cymedrol yw hwn, mae 3 o'r siaradwyr rhugl hyn bellach mewn swyddi allweddol; mae hyn yn ein galluogi i ehangu ein gweithgareddau a'n cynnwys ar-lein yn y Gymraeg. Yn ogystal, mae gan 8 aelod arall o'r staff sgiliau Cymraeg Lefel 3 neu Lefel 4, sy'n golygu bod tua 13.8% o staff y llyfrgell yn gallu cynnig gwasanaethau yn y Gymraeg. Rydyn ni wedi gweithio gydag Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor i gyflwyno system yn ein tair Llyfrgell Ardal – Aberdâr, Pontypridd, a Threorci – sy'n caniatáu i aelodau'r cyhoedd siarad â siaradwr	Gyda'n gilydd, rydyn ni hefyd yn adolygu'r ddarpariaeth Gymraeg sy'n cael ei chynnig gan wasanaethau trydydd parti, yn barhaus. Mae hyn er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus – o ran galluogi defnyddwyr i gael mynediad at ein gwefan yn eu dewis iaith ac o ran darparu deunyddiau yn eu dewis iaith. Darparu cynlluniau Darllen yn Well sy'n cynnig llyfrau Cymraeg i gynorthwyo gyda chyflyrau iechyd meddwl, dementia a theuluoedd. Dilyn Polisiâu'r Gymraeg y Cyngor.
--	--	---	---	---

			Cymraeg drwy Microsoft Teams pan nad oes staff sy'n siarad Cymraeg ar ddyletswydd. Cadarnhaodd profion bod y system yn gweithredu'n effeithiol; fodd bynnag, ers ei chyflwyno ym mis Tachwedd 2025, dyw hi ddim wedi cael ei defnyddio mewn sefyllfa fyw eto. Mae'n bosibl mai'r rheswm am hyn yw bod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael pan fo angen, neu fod cwsmeriaid yn dewis defnyddio Saesneg yn hytrach nag ymgysylltu drwy system Teams. Mae staff yn cael eu hannog yn rheolaidd i ddefnyddio'r cyfleoedd a'r gefnogaeth sy'n cael eu cynnig gan y gwasanaeth i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae'r cyfleoedd yma'n cael eu cyflwyno i gyflogeion newydd yn ystod y cyfnod ymsefydlu, tra bod staff presennol yn adolygu ac yn trafod eu cynnydd yn rhan o'u gwerthusiad blynyddol. Mae gwybodaeth	
--	--	--	---	--

			ynghylch argaeledd cyrsiau Cymraeg wedi'i harddangos yn ardaloedd y staff. Ar hyn o bryd mae gyda ni 4 aelod o staff wedi'u cofrestru ar gyrsiau Cymraeg, gydag aelod arall o'r staff wedi'i gymeradwyo i ddechrau cwrs cyn gynted ag y bydd lle addas ar gael.	
A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?				
	A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?	Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.	Pa dystiolaeth sydd gennych chi i ategu'r farn yma?	Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?
Niferoedd a / neu ganrannau'r siaradwyr Cymraeg e.e. Cyfleoedd Addysg / Astudio Cyfrwng Cymraeg. Cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru / Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd Cyngor Rhondda Cynon Taf	Cadarnhaol	Mae'n cael ei gydnabod yn y Strategaeth bod angen hyrwyddo'r Gymraeg. Yn y Strategaeth hefyd mae manylion ynghylch yr ymrwymiad sydd ynghlwm â hi i gynnig darpariaeth ddwyieithog ac i integreiddio'r Gymraeg yng ngweithrediadau craidd llyfrgelloedd at ddibenion cefnogi'r targed cenedlaethol o	Mae gwasanaeth y llyfrgelloedd yn cydnabod y ddyletswydd statudol allweddol sydd ar yr Awdurdod Lleol i ddarparu cyfleoedd i bobl ddysgu'r Gymraeg a'r angen i adolygu swyddi gwag i benderfynu a yw cyflogaeth lle mae'r Gymraeg yn hanfodol yn briodol.	Gofalu bod cwsmeriaid yn effro i'r cyfle o ran defnyddio'r Gymraeg drwy annog staff i wisgo llinynnau gwddf corfforaethol dynodi sgiliau iaith a chynnig llofnodion e-bost a chyfarchion rhagweithiol. Annog staff i gael sgysiau anffurfiol yn y Gymraeg

		gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae cyfeirio yn y Strategaeth at gynnig mynediad am ddim i adnoddau digidol a chynnig cyfleoedd dysgu; yn rhan o'r broses yma byddwn ni'n trin a thrafod ffyrdd o ehangu ein hadnoddau digidol Cymraeg ac o weithio gyda phartneriaid megis Addysg i Oedolion i gynnig dosbarthiadau Cymraeg. Mae sylw'n cael ei roi yn Strategaeth hefyd i bwysigrwydd gweithgarwch diwylliannol, gan gynnwys arddangosfeydd ac achlysuron. Byddwn ni'n parhau i sicrhau bod pob arddangosfa yn cael ei chyflwyno'n ddwyieithog a'n bod yn ehangu nifer yr achlysuron a'r gweithgareddau dwyieithog a Chymraeg ymhellach. Mae cyfran fawr o'n darpariaeth Gymraeg yn ddibynnol ar sefydliadau allanol, sy'n golygu y gall nifer yr achlysuron amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Er enghraifft, yn 2024 – 2025 cafodd 245 o achlysuron a gweithgareddau Cymraeg eu cynnal, tra rhwng mis Ebrill a mis	Mae Gwasanaeth y Llyfrgelloedd wedi nodi dwy swydd o fewn ei strwythur sydd bellach wedi'u dynodi'n rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol. Mae'r ddwy swydd o fewn Gwasanaeth y Llyfrgelloedd i Ysgolion. Mae'r dynodiad yma wedi ei roi iddyn nhw at ddibenion gwella cyfleoedd ar gyfer sesiynau stori yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog, yn ogystal â chryfhau darpariaeth y gwasanaeth i ysgolion cynradd Cymraeg. Mae 7 ysgol Gymraeg bellach wedi llofnodi Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Gwasanaeth y Llyfrgelloedd i Ysgolion ar gyfer 2025 – 2026. Bydd Gwasanaeth y Llyfrgelloedd yn parhau i adolygu swyddi wrth iddyn nhw ddod yn wag i benderfynu a oes rhesymeg glir dros eu dynodi'n rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol. Er enghraifft, yn ddiweddar, fe benodon ni Swyddog Digideiddio sy'n siarad Cymraeg; mae buddion sylweddol wedi dod i'r amlwg yn sgil hyn eisoes. Wrth symud ymlaen, rydyn ni'n bwriadu	gyda defnyddwyr llyfrgelloedd. Monitro'r capasiti o ran y Gymraeg o fewn y gwasanaeth i sicrhau lefel dderbyniol o ddarpariaeth Gymraeg. Mae pob un o'r 13 llyfrgell statig, y Gwasanaeth Dosbarthu Gartref a'r gwasanaeth One4all yn cael eu cynnwys yn hyn. Nodi bylchau yn y ddarpariaeth a gwella sgiliau neu recriwtio staff i'w llenwi. Gofalu bod gweithdrefnau ar waith, fel bod modd manteisio i'r eithaf ar sgiliau Cymraeg staff ledled gwasanaeth y llyfrgelloedd, at ddibenion darparu cymorth. Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod dosbarthiadau Cymraeg ar gael ledled yr awdurdod. Hyrwyddo argaeledd gwersi Cymraeg ar-lein drwy ein tanysgrifiad ar-lein i 'Transparent Language'
--	--	---	---	---

		Rhagfyr 2025 cafodd 126 eu cynnal, sy'n golygu bod y cyfanswm ar gyfer eleni yn debygol o fod yn is. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydyn ni wedi bod yn cynyddu nifer yr achlysuron a'r gweithgareddau Cymraeg mewnol; mae hyn wedi rhoi rhagor o reolaeth inni dros amllder a chysondeb. Yn ogystal â'r 126 achlysur a gafodd ei gynnal mewn partneriaeth â sefydliadau allanol eleni, rydyn ni hefyd wedi cynnal 65 achlysur dwyieithog ar gyfer plant yn fewnol ac wedi croesawu 7 ysgol Gymraeg i'n llyfrgelloedd ar gyfer sesiynau Her Ddarllen yr Haf a'r rhaglen <i>Sêr y Silffoedd</i>. Mae cyfeirio yn y strategaeth at uwchsgilio staff, mae'r canlynol yn rhan o hyn; gwella sgiliau Cymraeg staff presennol drwy ddarparu cyfleoedd iddyn nhw ddysgu'r Gymraeg ac adolygu unrhyw swyddi gwag, gan ystyried Deddf y Gymraeg ac Addysg, i benderfynu a yw'n briodol eu gwneud yn hanfodol.	gwneud y rôl yma'n un lle mae'r Gymraeg yn hanfodol. Ar hyn o bryd mae gyda gwasanaeth y llyfrgelloedd 8 o siaradwyr Cymraeg rhugl, 13 o siaradwyr Cymraeg canolradd ac 8 o siaradwyr Cymraeg sy'n ddechreuwr. O blith y rhain, mae 6 aelod o staff wedi symud o fod yn ddechreuwr i fod yn ganolradd gyda chefnogaeth gan wasanaeth y llyfrgelloedd. Ar hyn o bryd mae staff yn glynu wrth y safonau drwy gynnig cyfarchiad dwyieithog i ymwelwyr ac mae poster i 'Mae croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yma' yn cael eu harddangos wrth ddesgiau derbynfeydd. Er bod y gweithgareddau yma'n cael eu croesawu, maen nhw'n amrywio o ran nifer oherwydd y ddibyniaeth ar sefydliadau allanol ac o'r herwydd rydyn ni wedi cydnabod yr angen i ddatblygu rhagor o weithgareddau mewnol gan fanteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau ein hunain	
--	--	---	--	--

			gan gynnwys sgiliau staff sy'n siarad Cymraeg, a deunyddiau Cymraeg. Bellach, mae gweithgareddau crefft a sesiynau adrodd straeon sy'n cael eu cynnal gan ein hadran Gwasanaethau i Blant, yn achlysuron dwyieithog yn bennaf. Mewn sefyllfaoedd lle mae'r gweithgareddau yma'n cael eu cynnal gan staff llyfrgell gangen, mae staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hannog i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn ystod y gweithgareddau. Mae sgriniau sydd wedi'u hariannu drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi cael eu gosod ym Mhontypridd, Aberdâr a Threorci i hyrwyddo gweithgareddau'r llyfrgelloedd ac mae basgedi o adnoddau gan gynnwys cortynnau gwddf a bathodynnau wedi cael eu darparu i aelodau'r cyhoedd. Mae modd i staff nawr hyrwyddo gweithgareddau drwy'r System Rheoli Llyfrgelloedd, Spydus, newydd. Mae ynddi fodiwl digwyddiadau lle mae modd hysbysebu gweithgareddau ar-lein.	
--	--	--	--	--

			Mae llyfrau Cymraeg yn cael eu harddangos mewn mannau amlwg mewn llyfrgelloedd ac mae arddangosfeydd llyfrau Cymraeg ym mhob llyfrgell i annog benthyca'r eitemau yma. Mae nifer y llyfrau Cymraeg a gafodd eu cyhoeddi wedi gostwng o 10,388 yn 2022/2023 i 10,939 yn 2023/2024, ond does dim data cywir ar gael ar gyfer 2024/2025 oherwydd newid yn y System Rheoli Llyfrgelloedd. Mae gwasanaeth y llyfrgelloedd yn hyrwyddo defnyddio'i adeiladau ar gyfer gweithgareddau ac achlysuron, yn weithredol felly. Mae staff yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd hefyd ynghylch pwysigrwydd cefnogi'r Gymraeg yn rhagweithiol felly drwy annog trydydd partïon i ddefnyddio mannau mewn llyfrgelloedd ar gyfer gweithgareddau Cymraeg. Mae nifer o sesiynau Cymraeg yn cael eu cynnal yn rheolaidd ledled ein llyfrgelloedd, gan gynnwys: • Clwb Caru Canu – Wythnosol yn Llyfrgell	
--	--	--	---	--

			Pontypridd (cyfartaledd presenoldeb: 26) • Cymraeg i Blant – Wythnosol yn Llyfrgell Pontypridd (cyfartaledd presenoldeb: 12) • Grŵp Darllen Cymraeg – Misol yn Llyfrgell Hirwaun (cyfartaledd presenoldeb: 7) • Bore Coffi – Bob wythnos yn Llyfrgell Aberpennar (cyfartaledd presenoldeb: 4) • Cyrsiau Cymraeg – 1 sesiwn wythnosol yn Hirwaun a 2 sesiwn wythnosol yn Nhreorci (cyfartaledd presenoldeb cyfunol: 18) Mae'r gweithgareddau yma'n cael hyrwyddo gan y sefydliadau sy'n eu darparu a gan wasanaeth y llyfrgelloedd drwy bosteri a sgriniau digidol, ac ar-lein drwy wefan y Cyngor a thudalen Facebook y Llyfrgell. Er bod y sesiynau sy'n cael eu cyflwyno'n allanol, yma, yn cael eu gwerthfawrogi, mae modd i'w hargaeledd amrywio oherwydd dibyniaeth ar	
--	--	--	---	--

			sefydliadau partner. O ganlyniad, rydyn ni wedi cydnabod pwysigrwydd datblygu rhagor o weithgareddau mewnol sy'n manteisio i'r eithaf ar sgiliau ein staff ein hunain sy'n siarad Cymraeg, a'n hadnoddau Cymraeg. Mae sesiynau crefft a gweithgareddau adrodd straeon sy'n cael eu cyflwyno gan garfan y Gwasanaethau i Blant bellach yn ddwyieithog yn bennaf. Mewn sefyllfaoedd pan fydd gweithgareddau yn cael eu cyflwyno gan staff llyfrgell gangen, mae cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hannog i ddefnyddio eu sgiliau iaith a'u hyrwyddo. Mae sgriniau digidol sy'n cael eu hariannu drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi cael eu gosod yn llyfrgelloedd Pontypridd, Aberdâr, a Threorci i gefnogi hyrwyddo gweithgareddau, ac mae basgedi o adnoddau Cymraeg – gan gynnwys llinynnau gwddf a bathodynnau – ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd. Mae modd i staff nawr hyrwyddo gweithgareddau drwy'r System	
--	--	--	--	--

			Rheoli Llyfrgelloedd, Spydus, newydd. Mae ynddi fodiwl digwyddiadau lle mae modd hysbysebu gweithgareddau ar-lein.	
	Niwtral	Fydd ein hymrwymiad i leihau ein heffaith amgylcheddol ddim yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg.		Dd/B
Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, defnyddio Gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn rhan o fywyd beunyddiol yn y gwaith ac yn y gymuned Mynd ati'n weithredol i annog a hyrwyddo defnydd o'n gwasanaethau Cymraeg i weld cynnydd yn y galw dros amser.	Cadarnhaol	Bydd Strategaeth Gwasanaeth y Llyfrgelloedd yn chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo'r iaith Gymraeg a bydd yn gwneud hynny yn unol â Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg y Cyngor. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu'r angen i gefnogi staff sy'n dymuno dysgu'r Gymraeg ac i adolygu swyddi gwag wrth iddyn nhw godi i asesu a ddylai'r Gymraeg fod yn hanfodol ar eu cyfer. Wrth i nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y gwasanaeth gynyddu, bydd siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd yn dod yn normal ac yn amlach. Yn yr un modd, mae'n adlewyrchu'r angen i ddod yn wasanaeth gwirioneddol ddwyieithog, a bydd hyn yn	Mae staff sy'n dysgu Cymraeg wedi dangos brwdfrydedd cryf dros ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith bob dydd. Yn ogystal, mae pob aelod o'r staff wedi bod yn barod i gymryd rhan mewn mentrau ledled y cyngor fel Diwrnod Shwmae. Rydyn ni hefyd wedi cymryd camau rhagweithiol i ddatblygu ein hymgyrchoedd Cymraeg mewnol ein hunain, gan gynnwys arddangosfeydd llyfrau â thema i nodi Dydd Santes Dwynwen a chais llwyddiannus i <i>Gronfa Cymorth Beilot: Dydd Gŵyl Dewi 2026</i>. Mae ein prosiect a gafodd ei ariannu, "Dydd Gŵyl Dewi – Atgofion o'r Gorffennol," yn dwyn ynghyd dri maes gwasanaeth – Treftadaeth, Llyfrgelloedd, a Chelfyddydau a Diwylliant – ac mae wedi ein	Parhau i fonitro lefelau siaradwyr Cymraeg yn y gwasanaeth a nodi swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol. Annog yr holl staff i gynnwys rhywfaint o Gymraeg yn eu diwrnod gwaith. Byddwn yn parhau i fodloni Safon Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar gyfer gwariant ar lyfrau Cymraeg; bydd hyn yn ein galluogi i gynnal ystod eang ac amrywiol o stoc Cymraeg ac i ychwanegu nifer o gopiâu o deitlau priodol at ein casgliad. Yn ogystal, byddwn wedi ymrwymo o hyd i gefnogi cynhyrchu llyfrau print bras, e-lyfrau ac e-lyfrau sain yn y Gymraeg drwy gynnal archebion

		effeithio ar bob agwedd ar y gwasanaeth gan gynnwys sgriniau arddangos ac ati, arddangosfeydd, deunydd digidol ac eitemau i'w benthyg, dwyieithog.	galluogi i gomisiynu pedwar artist lleol i greu arddangosfa dros dro deithiol wedi'i hysbrydoli gan ddeunyddiau archif a chyflwyniadau cyhoeddus. Bydd yr arddangosfa yma'n ymweld â nifer o lyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf, yn ogystal â Pharc Treftadaeth Rhondda a Theatrau Rhondda Cynon Taf. Mae datblygu ymgyrchoedd mewnol yn y Gymraeg fel y rhain, a'u hyrwyddo, yn faes yr ydyn ni'n bwriadu ei ehangu ymhellach dros oes y strategaeth yma. Mae gwasanaeth y llyfrgelloedd eisoes yn sicrhau bod yr holl ddeunyddiau hyrwyddo ac arddangosfeydd yn ddwyieithog. Rydyn ni hefyd yn cynnig llyfrau, e-lyfrau, e-lyfrau sain, e-gylchgronau, adnoddau dysgu a gweithgareddau Cymraeg. Mae ein gwefan newydd: <i>Ein Treftadaeth</i> yn gwbl ddwyieithog, gyda'r iaith Gymraeg yn cael ei hystyried ym mhob cam o'i datblygiad.	sefydlog gyda'u cynhyrchwyr, gan sicrhau bod ganddyn nhw ffynhonnell incwm ddibynadwy i gynnal cyhoeddi parhaus. Gweithio gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Cyfathrebu a'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i ddatblygu rhagor o arddangosfeydd a chynnwys ar-lein dwyieithog/Cymraeg.
--	--	---	---	---

			Mae'r dull dylunio ar sail dwyieithrwydd yma'n fodd o sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin fel petai'n ychwanegiad neu gyfieithiad syml; mae hi'n hytrach yn rhan graidd o brofiad cyffredinol y defnyddiwr. Ers ei lansio gyntaf, mae ar y wefan gynnwys dwyieithog a deunyddiau Cymraeg wedi'u creu trwy; ddigideiddio dogfennau hanesyddol o'n casgliadau hanes lleol a chymorth at ddibenion recordio a rhannu recordiadau sain Cymraeg. Yn ddiweddar, fe benodon ni Swyddog Digideiddio sy'n siarad Cymraeg; bydd hyn yn fodd o atgyfnerthu ac ehangu ein gallu i greu cynnwys Cymraeg o ansawdd uchel, a'i gynnal, ymhellach.	
--	--	--	---	--

A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?

	A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?	Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.	Pa dystiolaeth sydd gennych chi i ategu'r farn yma?	Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?
Cydymffurfio â <u>Safonau Statudol y Gymraeg</u> e.e. cynyddu neu leihau gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ystyried hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith.	Cadarnhaol	Y nod o ran y strategaeth yma yw cynllunio datblygiad Gwasanaeth y Llyfrgelloedd drwy adeiladu ar wasanaethau presennol a'u datblygu a thynnu sylw at feysydd lle mae modd cyflwyno gwasanaethau newydd. Yn ei sgil, mae modd gofalu bod gwasanaeth y llyfrgelloedd yn cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol y Cyngor ac â strategaethau lleol a chenedlaethol eraill fel ei fod yn cefnogi agenda ehangach y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys Safonau'r Gymraeg a	Mae gwasanaeth y llyfrgelloedd yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Cydymffurfio a Pholisïau'r Gymraeg i sicrhau ei fod yn cyrraedd unrhyw dargedau sy'n cael eu nodi yn Adroddiad Sicrwydd Safonau – Safonau'r Gymraeg. Mae'r strategaeth yma'n dangos ymrwymiad clir a diysgog i'r iaith Gymraeg; mae'n rhoi dwyieithrwydd wrth wraidd darpariaeth gwasanaeth y llyfrgelloedd ac yn fodd o ofalu bod y Gymraeg yn flaenllaw wrth wneud newidiadau i	Parhau i weithio'n agos gyda Swyddog Cydymffurfio a Pholisïau'r Gymraeg. Parhau i ddatblygu diwylliant lle mae'r holl staff yn ystyried y Gymraeg yn weithredol mewn unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â gwaith. Mae Uned Gwasanaethau Cymraeg a Charfan Cyfathrebu'r Cyngor wrthi'n cynnal archwiliad o'i gyfrifon cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys y rhai mae Gwasanaeth y Llyfrgelloedd yn eu cynnal; mae hyn at ddibenion asesu cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Bydd canfyddiadau'r archwiliad yma'n ein cynorthwyo i wella cydymffurfiaeth o ran cynnwys

		Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg, Statudol, y Cyngor.	wasanaethau neu benderfyniadau polisi. Mae'n fodd o gydnabod hawl trigolion i gael mynediad at wasanaethau, adnoddau a chyfleoedd diwylliannol yn y Gymraeg, ac o hyrwyddo'r iaith yn weithredol felly drwy gasgliadau, achlysuron, cyfleoedd dysgu a rhyngweithiadau bob dydd yn y Gymraeg. Wrth ofalu bod y Gymraeg yn weladwy, yn cael ei gwerthfawrogi, ac yn cael ei hintegreiddio ledled pob agwedd ar y ddarpariaeth, mae'r strategaeth yn fodd o gefnogi amcanion cenedlaethol ar gyfer cenedl sy'n siarad Cymraeg sy'n ffynnu ac yn atgyfnerthu rôl gwasanaeth y llyfrgelloedd wrth ddathlu a chynnal treftadaeth ieithyddol Rhondda Cynon Taf.	cyfryngau cymdeithasol; hyn drwy gynyddu gwelededd y Gymraeg, ai defnyddio fwyfwy ar gyfrifon y llyfrgelloedd.
--	--	--	---	---

Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Niwtral	Mae'r strategaeth, fel gyda'n strategaeth flaenorol, yn pwysleisio ymrwymiad y gwasanaethau i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae Gwasanaeth y Llyfrgelloedd yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg, Statudol, y Cyngor, ym mhob un o'i feysydd.	Mae pob cyfathrebiad cyhoeddus yn ddwyieithog, boed hynny'n ateb y ffôn, yn ateb e-byst Cymraeg yn y Gymraeg neu gynhyrchu deunyddiau dwyieithog ar gyfer y gwasanaeth. Mae elfen gyhoeddus ein System Rheoli Llyfrgelloedd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Caiff gweithgareddau, achlysuron a gwasanaethau Cymraeg – gan gynnwys llyfrau ac adnoddau digidol Cymraeg – eu hyrwyddo'n unigol fel cynigion annibynnol a hefyd yn rhan o'n cyfathrebiadau gwasanaeth prif ffrwd ehangach.

Cam 3 – Gwella'r cynnig

Ar ôl rhestru camau gweithredu yn adran 2 a allai liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol – nodwch isod pa rai y byddwch chi'n eu cynnwys yn y cynnig polisi a phwy fydd yn gyfrifol amdanyn nhw.

Ystyriwch hefyd a yw'r cynnig yn angenrheidiol? A fyddai modd bodloni'r galw heb unrhyw ddatblygiadau newydd? A fyddai modd i ddarpariaeth gyfredol arall gael ei defnyddio? Ble dylai'r ddarpariaeth fod?

Beth ydych chi'n mynd i'w wneud?	Pryd ydych chi'n mynd i'w wneud?	Pwy sy'n gyfrifol?
Unwaith y bydd y Strategaeth a'r adnodd Asesu Effaith ar y Gymraeg wedi'u cymeradwyo, bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal a bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw'n cael eu hystyried cyn cyflwyno'r strategaeth i'r Cabinet.	Chwefror – Mai 2026	Nick Kelland Christopher Davies
Cyhoeddi'r strategaeth ar dudalennau gwasanaeth y llyfrgelloedd Gwefan y Cyngor	Ebrill/Mai 2026	Nick Kelland
Datblygu prosiectau sy'n trin a thrafod y Gymraeg, ei deall, a'i dathlu.	Parhaus	Uwch Garfan Rheoli Gwasanaeth y Llyfrgelloedd
Monitro'r ddarpariaeth Gymraeg ledled y gwasanaeth er mwyn nodi bylchau ynddi. Cymryd camau i fynd i'r afael â'r bylchau sydd wedi'u nodi drwy uwchsgilio neu recriwtio.	Parhaus	Uwchgarfan rheoli Gwasanaeth y Llyfrgelloedd
Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl eu rhoi ar waith, esboniwch pam. Rhowch ddigon o fanylion am ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymu.		
Beth gafodd ei nodi?	Pam nad yw'n bosibl?	

Ar gyfer pob cynnig polisi, p'un a yw'n Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol ai peidio, mae'n ofynnol ichi anfon yr asesiad yma ymlaen at yr Uned Gwasanaethau Cymraeg – Swyddoglaith@rctcbc.gov.uk a'r garfan Ymgynghori ac Ymgysylltu – ymgynghoriad@rctcbc.gov.uk yn y lle cyntaf i gael rhywfaint o arweiniad ac adborth cychwynnol.

Yn rhan o'r Broses Asesu Effaith ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol, dylai pob cynnig sy'n diwallu'r diffiniad o Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol gael eu cyflwyno gerbron y Panel Adolygu Swyddogion. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch adroddiad gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol Strategol, anfonwch eich asesiad effaith sydd wedi'i gwblhau (Camau 1>6), ynghyd â chynnig/adroddiad polisi a'r adroddiad ymgynghori i'r cyfeiriad e-bost BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. [Darllenwch ein dogfen ganllaw](#) i gael rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol Arwyddocaol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses yma fel y gallwn ddangos sut rydyn ni wedi ystyried ac ymgorffori ystyriaethau cynaliadwy o ran y Gymraeg lle bynnag y bo modd. Gofalwch eich bod chi'n diweddarau'r rhannau perthnasol isod ar y cyd â'r adrannau perthnasol.

Sylwadau Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor	Dyddiad Ystyried y Cynnig	Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn adborth gan Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor.
Mae Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn croesawu'r asesiad cynhwysfawr yma o'r Effaith ar y Gymraeg a'r effaith amlwg y bydd y cynnig yma'n ei chael ar y Gymraeg. Mae'r drafft gwreiddiol gan y swyddog sy'n cwblhau'r adnodd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a'r strategaeth ei hun yn gryf eisoes ac mae'n amlwg bod ystyriaeth wedi'i rhoi i'r modd y gall y cynnig gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a sut y byddai modd iddi fynd ymhellach na'r strategaeth flaenorol. Fodd bynnag, mae rhai mân addasiadau y byddai modd eu gwneud i atgyfnerthu'r asesiad ymhellach ac i sicrhau bod pob llwybr posibl o ran effeithiau cadarnhaol yn cael ei ystyried.		

- Cyfeiriad ynghylch y prosiect y bu i staff gwasanaeth y llyfrgelloedd weithio arno gyda staff o Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a gafodd effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. - Data pellach ynghylch gwariant ar adnoddau ac achlysuron / ymgyrchoedd / dosbarthiadau, Cymraeg ac ati - Cyfeiriad penodol at sut y bydd y cynnig yma'n mynd ymhellach na'r hyn a gafodd ei gyflawni yn sgil y strategaeth flaenorol o ran y Gymraeg - Manylion pellach ynghylch rhai o'r pwyntiau a gafodd eu gwneud dim ond er mwyn rhoi rhagor o gyd-destun a chryfder iddyn nhw - Sut ydych chi'n mynd i barhau i ymgorffori'r Gymraeg a'i phrif-ffrydio yng ngweithrediad y llyfrgelloedd - Cymryd camau blaengar o ran y Gymraeg a hefyd parhau i weithio ar brosiectau gydag Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor		
Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu	Dyddiad Ystyried y Cynnig	Disgrifiad byr o unrhyw addasiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau Swyddogion y Panel Adolygu

Sylwadau'r Adran Ymgynghori	Dyddiad Ystyried y Cynnig	Disgrifiad byr o unrhyw addasiadau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad

Cam 5 – Monitro, Gwerthuso ac Adolygu

Sut byddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig, a gyda phwy?

Bydd y Strategaeth a'r cynllun gweithredu yn cael eu monitro a'u gwerthuso gan Uwch Garfan Rheoli gwasanaeth y llyfrgelloedd. Bydd y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu yn cael eu cynnwys yn eitem reolaidd ar yr agenda yng nghyfarfodydd Uwch Garfanau Rheoli. Bydd pob uwch swyddog yn gyfrifol am weithredu yn ei ardal ac am ofalu cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

Cam 6 – Crynodeb o'r Effeithiau o ran y Cynnig

Darparwch grynodeb o'r asesiad effaith isod. Yn y crynodeb, rhaid cynnwys rhai o'r prif effeithiau cadarnhaol a negyddol ynghyd â throsolwg o'r camau gweithredu ers yr asesiad effaith a gafodd eu cymryd i gyfrannu at effeithiau mwy cadarnhaol yn well. Dylai'r crynodeb yma gael ei gynnwys yn adran Ystyriaethau o'r Gymraeg yn nhempel adroddiad Uwch Reolwyr y Cyngor/y Cabinet. Dydy hi ddim yn addas ysgrifennu 'gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad x' yn unig yng nghorff yr adroddiad. Rhaid cyhoeddi'r asesiad effaith ochr yn ochr â'r adroddiad.

Cwblhawyd Asesiad Effaith ar y Gymraeg ac mae'r prif ganfyddiadau fel a ganlyn -

--

Cam 7 – Cymeradwyo			
Enw'r Swyddog sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg		Enw Cyfarwyddwr y Gwasanaeth:	
Swydd:		Rydw i'n argymhell bod y cynnig: (Tynnwch sylw at y penderfyniad)	Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw addasiadau
			Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u nodi
			Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur ar y Gymraeg
Llofnod		Llofnod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth	
Dyddiad:		Dyddiad:	